

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Myra Hughes (Saron). Er na fu'n dda ei hiechyd ers tro, bydd bwlch mawr ar ei hôl ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gareth, Ann, a Gaynor, a'r teulu oll yn eu profedigaeth, gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Mair Jones (Nantglyn) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Aled. Cofiwn amdanynt hwythau a sawl un arall o'r Ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn, a dymunwn nodded a nerth yr Arglwydd iddynt oll.
- Yr ydym yn codi amryw o rai eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn o flaen Duw hefyd. Gweddïwn y byddant yn profi gofal a chwmni yr Arglwydd yn nerth a chysur iddynt yn eu gwendid.
- Estynnwn ddymuniadau gorau'r Fro i Rhodri Glyn a Gwenno fydd yn priodi ym Mhandy Tudur ddydd Sadwrn nesaf. Gweddïwn y cânt ddiwrnod cofiadwy ac y bydd Duw yn eu bendithio'n helaeth yn eu bywyd priodasol.

Ieuentid 15+

Bydd y sesiynau i'r rhai sydd ag awydd dod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n dymuno, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol yn cael eu cynnal dros yr haf ac yn cychwyn ganol mis Mehefin. Hwn felly yw'r cyfle olaf i chi roi eich enw cyn i'r sesiynau hyn gychwyn, felly cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair cyn diwedd mis Mai, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu amser cyfleus i gynnal y cyfarfodydd.

I ddod

- **Diwrnod Dynion (15+)** "Dafydd: Y Da, y Drwg a'r Erchyll" yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 8fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Cost: £25 yn cynnwys cinio.
- **Christian Viewpoint** yn cyflwyno 'Hedfan gyda'r adar' – sgwrs ac arddangosfa o lyfrau, lluniau a chardiau gan Philip Snow, arlunydd adar, ysgrifennwr a chreadydd, nos Lun, Mehefin 10fed am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched!
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** dydd Sul, Mehefin 9fed yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2012-13. Arweinydd: Nia Evans, Llangefni. Croeso cynnes i bawb.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Mai 2013

Darllenid y Dydd

Actau 1:1-11

(BCND tud.128 / BCN: tud.118)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i foli a chanmol ein Harglwydd heddiw.

Faint ohonoch fu'n dilyn yr hanes am etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn yr wythnos ddiwethaf? Hanes digon od sydd wedi bod yno'n ddiweddar wrth i'r hen gynghorwyr gael eu gwahardd gan nad oeddynt yn gwneud eu gwaith yn iawn, a chomisiynwyr anetholedig yn gwneud y gwaith yn eu lle. Wedi pum mlynedd heb gael ethol cynrychiolwyr, cafodd pobl Ynys Môn gyfle i wneud hynny ddydd lau diwethaf gyda'r canlyniadau yn gymysg a neb yn hollol siŵr beth fydd yn digwydd nesaf! Mae'r hanes am Gyngor Môn a phroblemau mewn cynghorau sir eraill yn dangos mor eiddgar yr ydym fel pobl am gael cynrychiolwyr ac arweinwyr y gallwn ymddiried ynddynt i wneud eu gwaith yn iawn, a chyflawni'r addewidion y maent yn eu rhoi i ni. Yn ein darllenid Beiblaidd heddiw, cawn gip ar fath cwbl unigryw o gynrychiolydd ac arweinydd. Cawn glywed yr hanes am Iesu yn esgyn oddi ar y ddaear ar ôl iddo dreulio 40 diwrnod gyda'i ddisgyblion wedi ei atgyfodiad. Dyma pam y bu'r eglwys ar draws y byd yn dathlu dydd lau Dyrchafael yr wythnos aeth heibio. Gwelwn trwy'r esgyniad fod Iesu bellach yn y nef, wrth ochr ei Dad yn teyrnasu'n frenin y bydysawd. Ond ar ben hyn, mae hefyd yn ein cynrychioli ac yn pledio dros ei bobl ar sail ei fywyd a'i farw aberthol. Os ydym byth yn cael ein llethu gan amheuan am ein ffydd a'r cwestiwn "A yw Iesu'n fyw heddiw?" cawn weld yn glir ei fod yn fyw, ac yn fwy na hynny bod Duw'r Tad wedi derbyn ei aberth dros bechod ar y groes trwy ei atgyfodi a'i dderbyn yn ôl i'r nefoedd. Os ydym yn llawn pryderon am y dyfodol neu ddylanwad drygioni arnom a'n byd, bendigedig yw sylweddoli fod Iesu yn teyrnasu ar orsedd, y bydd yn dychwelyd mewn grym a chyfiawnder ymhen amser ac y caiff y saint fod gydag Ef yn dragywydd. Dyna i chi obaith a hyder a gawn wrth bwysu ar Iesu! Yn wahanol i gynghorwyr a gwleidyddion all ar brydiau ein siomi a thorri addewidion, gall y Cristion fod yn dawel ei feddwl ac yn hollol hyderus y bydd Iesu yn gwneud yr hyn a ddywedodd. Dyma pam y mae ein hyder yn Iesu yn allweddol – heb roi'n hymddiriedaeth ynddo, pa obaith sydd gennym? Wrth i ni ryfeddu at y brenin Iesu, ac edrych ymlaen at ei ailddyfodiad gogoneddus, cofiwn am eiriau William Williams, Pantycelyn

*Esgyn a wnaeth i entrych nef
i eiriol dros y gwan;
fe sugna f'enaid innau'n lân
i'w fynwes yn y man.*

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Derwen Deg, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Pwyllgor Ysgolion Sul y Fro** – Bydd cyfarfod yn Ffestri Capel Llanefydd am 8:00, yn bennaf i osod gwaith llafar yr Ysgol Sul ac i drefnu oedfa'r bore ar gyfer Sul y Fro (i-Grist) fydd yn cael ei gynnal yn Llansannan ddiwedd Mehefin. *Byddem yn ddiolchgar petai modd i chi ofalu bod naill ai Arolygwr eich Ysgol Sul neu gynrychiolydd arall o'ch eglwys yn y cyfarfod, os gwelwch yn dda.*
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
Mercher • **Addoliad Arbennig a Seiat** yng nghwmni Andrew Chang, Ysgrifennydd Cyffredinol Taiwan yn Ffestri Llansannan am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
• **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac i ddilyn, bydd cinio cynnil am £5 tuag at Gymorth Cristnogol, ac Ysgol Sul i'r oedolion yn syth wedi hynny. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys am 11.00 a bydd cyfeiriad at y gwaith yn Oedfa'r Fro am 6.00.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd yn Saron am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno Rhaglen Dorcas i'r aelodau.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00 a chinio cynnil i ddilyn yn y Neuadd.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 ac yna cynhelir Sasiwn y Plant yn y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30 a bydd stodin Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.30.
- Sul nesaf Cynhelir gwasanaeth teuluol dan ofal yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.